# heddwch

haf 2006
rhif 40
am ddim (neu gyfraniad)

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear


# Pe gallai Cymru wario mwy na £1 biliwn

***naill***

**ai ar system Trident Brydeinig* newydd**

*(* amcangyfrifir y bydd yn costio £25-40 biliwn)*

***neu***

- **atal cau ysbytai**
- **lleihau rhestri aros y GIG**
- **bod â deintydd ym mhob tref**
- **rhoi i ysgolion yr adnoddau a'r athrawon sydd eu hangen arnyn nhw**



# *Beth fyddai'ch dewis chi?*

## ASau Cymru'n fud ynglyn ag olynydd i Trident

**Gofynnodd gohebydd y Western Mail, Martin Shipton, i'n ASau a oedden nhw'n cefnogi gwario mwy na £25 biliwn ar genhedlaeth newydd o arfau niwclear. Roedd eu hymateb, a gyhoeddwyd yn y Western Mail ar yr 17eg o Orffennaf - http://icwales.icnetwork.co.uk/ - yn siomedig.**

2 O blaid (ASau Ceidwadol Stephen Crabb a David Davies)
6 Yn erbyn (2 AS Llafur, 1 Annibynnol a 3 Plaid Cymru Adam Price,Elfyn Llwyd a Hywel Williams)
1 Wedi fy nghamddeall" (AS Dem-Rhydd Lembit Öpik)
31 Dim ateb

Dywedodd dau AS Llafur, Martin Caton (Gwyr) a Paul Flynn (Gorllewin Casnewydd) yn ddi-flewyn-ar-dafod nid yn unig eu bod yn gwrthwynebu unrhyw olynydd i Trident yn y dyfodol, ond hefyd yn erbyn cadw'r system bresennol – fel y gwnaeth tri AS Plaid Cymru.

Roedd AS Annibynnol newydd Blaenau Gwent, Dai Davies, hefyd yn gwbl wrthwynebus i arfau niwclear ac yn ymfalchïo ei fod yn dilyn yn ôl traed Michael Foot ar y mater yma.

Dywedodd y Western Mail fod yr AS Dem-Rhydd Lembit Öpik "O blaid" ond, pan gysylltodd **heddwch** ag e, fe'n sicrhaodd ei fod yn llwyr wrthwynebu olynydd i Trident am na fyddai'n "ataliaeth i neb". Fodd bynnag, credai mai'r un man cadw'r fersiwn bresennol o Trident tan 2025 (pan fydd UDA yn cael olynydd i'w Trident nhw). Mae'n bwriadu cwyno wrth y Western Mail nad yw eu hadroddiad sy'n dweud ei fod 'o blaid braw-atalydd niwclear' yn adlewyrchu ei farn.Nid atebodd yr aelodau Dem-Rhydd eraill. Yr unig ddau AS a oedd yn llwyr gefnogi'r llywodraeth oedd yr ASau Ceidwadol David Davies (Mynwy) a Stephen Crabb (Preseli Penfro) – sydd, gellir tybio, yn yr un garfan â Peter Hain sydd, er nad atebodd i holiadur y Western Mail, newydd ymddiswyddo fel aelod o CND.

**heddweithredu: Da chi, sgrifennwch at eich AS a gofyn iddo/iddi a yw'n cefnogi datblygu cenhedlaeth newydd o arfau niwclear. Rhowch wybod iddyn nhw beth yw eich barn – wedi'r cwbl, nhw sy'n eich cynrychioli! Os oes modd, anfonwch gopïau o atebion at CND Cymru (gweler cysylltiadau tudalen 8).**

### PEIDIWCH Â BOMIO!




Dim ond un o'r llu o ddigwyddiadau a drefnwyd ledled Cymru mewn ymateb i'r argyfwng cynyddol yn y Dwyrain Canol oedd gwylnos awr ginio yng nghanol Caerdydd. Mynegodd siaradwyr o bob barn wleidyddol eu harswyd ynglyn â'r cynnydd parhaus yn y trais. Y plant yn yr ardaloedd dan ymosodiad yw'r prif ddioddefwyr: mae eu cartrefi'n cael eu dinistrio, maen nhw heb fwyd, dwr na thrydan, a phlant yw traean y rhai a laddwyd ac a anafwyd yn Libanus a Gasa. Cynhaliwyd gwylnosau, protestiadau, digwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru. Er mwyn cael gwybod am ddigwyddiadau yn eich ardal, ebostiwch CND Cymru: heddwch@cndcymru.org neu cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf (gweler cysylltiadau tud.8)

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio I ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgychledd.**

# TRIDENT

## rhai cwestiynau ac atebion

**BETH YW TRIDENT BETH BYNNAG?**
Trident yw'r llaw-fer am system arfau niwclear llongau tanfor Prydain, sef pedair llong danfor niwclear ag 16 o daflegrau niwclear yr un. Mae gan bob taflegryn 3 – 8 o fomiau (ergydion), sef cyfanswm o hyd at 192 o ergydion. Mae pob un o'r rhain o leiaf ddeg gwaith mor ddinistriol â'r bom Americanaidd a laddodd fwy na 75,000 o bobl yn Hiroshima ar y 6ed Awst 1945. Mae gan Trident y gallu i ddinistrio bywyd cyfandir cyfan a byddai'n gwasgaru radio-niwclidau marwol i bedwar ban y byd.

**PAM MAE'R LLYWODRAETH AM GAEL SYSTEM ARALL YN EI LE?**
Am y bydd yn 'hynafol' erbyn 2030.

**BETH MAEN NHW AM EI ROI YN EI LE?**
Does neb yn gwybod yn iawn. Un syniad yw ei gwneud hi'n bosib anelu'r taflegryn yn fwy manwl gywir, fel y gall ddinistrio arfau'r 'gelyn' yn gyntaf. Un arall yw galluogi'r taflegrau i gludo gwahanol fathau o fomiau.

**BETH FYDD HYNNY'N COSTIO?**
Does neb yn gwybod yn union. Unrhyw beth rhwng £25 biliwn a £40 biliwn. Digon i dalu am hyfforddi 120,000 o nyrsys newydd y flwyddyn am y deng mlynedd nesaf.

**AT BWY Y BYDD YN CAEL EI ANELU?**
Does neb yn gwybod. Dydy arfau niwclear yn dda i ddim yn erbyn brawychwyr, y gelyn newydd honedig. Does dim un wlad yn ein bygwth ni ag arfau niwclear. Pe baent, byddent yn wallgof. Byddai ymbelydredd o ganlyniad i ryfel niwclear yn llygru'r ddaear am gannoedd o flynyddoedd.

**OND MAE'N SIŴR EU BOD YN YSWIRIANT YN ERBYN DYFODOL ANSICR?**
Dyna'n union mae'r llywodraeth yn ei ddweud. Ond rhyw yswiriant od iawn sydd, mewn gwirionedd, yn cynyddu risg.

**BETH MAE HYNNY'N EI OLYGU?**
Os caiff Prydain olynydd i Trident, bydd yn dangos i'r byd ein bod yn credu fod ein diogelwch yn dibynnu ar arfau niwclear. Bydd yn anfon neges glir i eraill i wneud yn yr un modd, a bydd peryglon damweiniau niwclear ac argyfyngau rhyngwladol yn cynyddu.

**A OES UNRHYW WLEDYDD WEDI CAEL GWARED O'U HARFAU NIWCLEAR?**
Oes. De Affrica, Ukrain, Kazakhstan a Belarus.

**FAINT O WLEDYDD SYDD AG ARFAU NIWCLEAR AR HYN O BRYD?**
Y gwledydd sydd ag arfau niwclear yw UDA (10,640), Rwsia (8,600), China (400), Ffrainc (350), Prydain (200), Israel (100-200), India (30-35) a Pakistan (24-48). Ledled y byd, mae mwy na 30,000 o arfau niwclear yn bodoli, yn cynnwys rhai mewn storfeydd, rhai sy'n cael eu hadnewyddu neu'n disgwyl cael eu hadnewyddu. Mae gan bob un o'r ergydion niwclear hyn fwy o buer dinistriol na'r bom a ddinistriodd Hiroshima ym 1945 a lladd mwy na 75,000.

**BETH AM Y CYTUNDEB ATAL YMLEDIAD NIWCLEAR?**
Lluniwyd y cytundeb ym 1968 ac mae'n dweud tri pheth:

a. Fod gan bob gwlad hawl i ynni niwclear heb derfynau;
b. Y dylai gwledydd heb arfau niwclear barhau i fod hebddynt;
c. Byddai'r gwledydd niwclear yn negydu cytundeb i ddileu pob arf niwclear.

**FELLY A YDY IRAN WEDI TORRI'R CYTUNDEB YMA?**
Na, ond mae wedi torri cytundeb gwirfoddol diweddarach gyda'r Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol ynglŵn ag arolygiadau.

**A YDY'R GWLEDYDD NIWCLEAR YN NEGYDU I DDILEU ARFAU NIWCLEAR?**
Na. Y cwbl sy'n digwydd yw negydu ynglŵn â 'gofalu am' arfau niwclear, er enghraifft, terfynau ar ffrwydradau profi arfau a chytundebau i beidio â gosod arfau niwclear yn y gofod, ac ati.

**SUT Y GALLAI NEGYDU YNGLŴN Â DILEU GYCHWYN?**
Yn hawdd iawn, pe bai'r ewyllys wleidyddol yn bod. Mae drafft manwl o gytundeb eisoes yn meddiant y Cenhedloedd Unedig, a allai fod yn sail iddo. Mae'n ymdrin â materion anodd fel arsylwi, arolygu ar gais, rheolaeth dros ddeunydd niwclear, troseddu, ac ati.

**PAM NA WNAWN NHW DDECHRAU NEGYDU?**
Oherwydd nad yw'r ewyllys wleidyddol yn bod. Dydy pobl ddim yn sylweddoli ei bod hi'n berffaith bosib dileu arfau niwclear yn llwyr, ac y byddai'n haws cadw gwyliadwraeth ar hynny nag ar ddiarfogi rhannol.

Mae meddu arfau niwclear fel storio deinameit yn eich seler i warchod yn erbyn lladron. Byddech chithau'n cael eich chwythu i ebargofiant gyda'r lladron pe bai'n ffrwydro ar ddamwain neu'n fwriadol. Ble bynnag a phryd bynnag y defnyddir arfau niwclear, byddant yn gollwng ymbelydredd a defnyddiau peryglus eraill heb barchu ffiniau.

**FELLY YDY HI'N BRYD CYCHWYN?**
Wrth gwrs. Dylem gychwyn drwy ddweud wrth y byd nad ydym yn mynd i roi dim byd yn lle ein system Trident bresennol pan ddaw i derfyn ei hoes ymhen ugain mlynedd, AC ein bod yn mynd i alw am ddechrau negydu i ddileu arfau niwclear AR UNWAITH.

**Bruce Kent**

## Beth yw Arfau Niwclear?

**Roedd grym ffrwydrol 15,000 tunnell o TNT gan y bom atomig a ddinistriodd Hiroshima a lladd o leiaf 75,000 o bobl drwy wres a thanchwa. Bu farw llawer iawn mwy yn araf a phoenus o ymbelydredd niwclear. Mewn rhyfel niwclear, byddai mwy yn marw o ymbelydredd niwclear 'oddi ar faes y gad' nag arno o wres a thanchwa.**

**Gall bomiau thermoniwclear modern fod â mwy na 1000 gwaith grym ffrwydrol bom Hiroshima a phan arferid gwneud profion go iawn, gwasgarwyd radio-niwclidau i bedwar ban – ym 1963, roedd gan fabanod yng Nghymru fwy na 50 gwaith yn fwy o Strontiwm-90 ymbelydrol yn eu hesgyrn na chyn y profion (a nawr).**
**Mae'r bom lleiaf sy'n cael ei ystyried yn awr ar gyfer y system daflegrau Trident newydd fwy na dengwaith mor bwerus â bom Hiroshima, ac mae'n llywodraeth yn bwriadu bod ag o leiaf 192 ohonyn nhw. O ffrwydro'r rhain dros 192 o 'ddinasoedd y gelyn', gallai hyn ladd mwy na 60 miliwn o bobl (mwy na phoblogaeth Prydain) drwy wres a thanchwa yn unig – byddai hyd yn oed mwy o bobl yn marw wrth i lwch a sbwriel o'r ffrwydradau hyn lygru Prydain a rhannau eraill o'r byd ag ymbelydredd.**

## Esgobion yn gwrthod Trident

Mae 19 o esgobion Lloegr wedi sgrifennu llythyr agored at ASau yn gofyn iddyn nhw ystyried eu barn yn y ddadl ffurfiol a gynhelir yn y man ar Trident. Mae eu llythyr yn dweud fod dadleuon 'Rhyfel Cyfiawn' yn gwahardd defnyddio arfau niwclear a bod y fath arfau'n herio'r cyfrifoldeb a roddodd Duw i'r ddynolryw am y ddaear.
Maen nhw hefyd yn dweud y byddai defnyddio arfau niwclear "yn ddim byd llai na llofruddiaeth dorfol miloedd os nad degau o filoedd o sifiliaid diniwed. Ni ellid cyfyngu'r ymbelydredd a ddeilliai o arf tactegol neu faes-cad i un ardal benodol." Maen nhw hefyd yn poeni fod "defnyddio adnoddau cyfyngedig ar Arfau Dinistr Torfol yn dargyfeirio'r adnoddau yma oddi wrth addysg, iechyd a chymorth i'r tlotaf a'r mwyaf anghenus."
Mae'r llythyr, a ymddangosodd yn yr Independent, yn cloi: "Yn uwchgynhadledd Gleneagles y llynedd, addawodd y G8 i "Wneud Tlodi'n Hanes" ac i roi terfyn ar faich dyledion gwledydd tlotaf y byd. Gellid defnyddio costau cynnal ac olynu Trident i ddatrys problemau amgylcheddol dwys, achosion brawychiaeth, tlodi a dyled, a sicrhau hawl pawb i ddynoldeb ac urddas, gan fynd ymhell tuag at Wneud Tlodi'n Hanes."



## Unison yn Unsain

Pleidleisiodd undeb y Gweithwyr Iechyd UNISON, undeb llafur mwyaf Prydain a'r mwyaf sy'n perthyn i'r Blaid Lafur gyda mwy nag 1.3 miliwn o aelodau, drwy fwyafrif ysgubol yn eu Cynhadledd Flynyddol i gefnogi cynnig sy'n galw ar y llywodraeth i beidio â cheisio olynydd i Trident.
Daeth hynny ddiwrnod wedi cyhoeddiad Gordon Brown ei fod o blaid cenhedlaeth newydd o arfau niwclear. Dywed cynnig UNISON "y byddai penderfyniad i geisio olynydd i Trident yn mynd yn gwbl groes i ymrwymiadau cytundebol (Prydain)."
Mae'r cynnig yn ymrwymo i "wrthwynebu rhoi dim yn lle Trident a galw am ddadgomisiynu'r system arfau Trident bresennol."
Galwodd Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig, ar undebau llafur a mudiadau eraill i ymuno â'r ymgyrch yn erbyn cenhedlaeth newydd o arfau niwclear.

## Heddlu'n Cyfyngu ar Brotest Wrth-Trident yn Aldermaston

Ym mis Gorffennaf, cafodd rhai protestwyr ger Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston eu hunain wedi eu corlannu ac yn methu symud o gwmpas yn rhydd. Gosodwyd amodau gan yr heddlu a oedd yn atal protestwyr rhag gadael y lle heb geisio caniatâd yr uwch swyddog cyfrifol. Mae rhai'n pryderu fod y protestwyr wedi dioddef 'carcharu mympwyol' fel y diffinir hynny gan y Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd y brotest wedi ei threfnu gan Blocio'r Bildars i alw sylw at hyd a lled y datblygu yn Aldermaston.
Ymgasglodd y prostestwyr di-drais, yn cynnwys yr ASE Caroline Lucas, wrth ddwy o'r clwydi, gan gau un am 45 munud. Restiwyd nifer o bobl.
Meddai Sian Jones, o Wersyll Heddwch Menywod Aldermaston: "Rydym yn bryderus iawn fod yr heddlu wedi carcharu – i bob diben – protestwyr heddychlon yn cynnwys plant dan bump. Rydym yn llwyr wrthwynebu'r cyfyngu yma ar brotestio heddychlon."

Faslane 365

# Gallwn, mi allwn!



**Os ydych yn darllen Heddwch yn gyson, fe wyddoch am gynlluniau'r llywodraeth i ddatblygu olynydd i Trident, a thaflegrau niwclear 'defnyddiadwy' llai. Ni fyddwch wedi methu'r ffaith fod Gordon Brown wedi cefnogi safbwynt Tony Blair a'r gwaith paratoi yn Aldermaston. Mae'n amlwg, yn eu byd nhw, fod popeth wedi cael ei benderfynu a dim ond ffars y 'drafodaeth gyhoeddus' sydd ei angen bellach i gau pen y mwdwl.**

Dwi am ofyn "A ydyn nhw'n mynd i gael 'get-away' gyda hyn?"
Ond efallai eich bod chi'n meddwl . . . Allwn ni eu hatal? Ac os felly, beth fyddai ei angen?"

Mae'r mudiad heddwch wedi dioddef rhai ergydion mawr yn ddiweddar – neu, o edrych arni mewn ffordd arall – wedi cael rhai llwyddiannau mawr!

Cynnull mwy na miliwn o bobl (ffigwr cydnabyddedig y wasg) ar strydoedd Llundain, i wrthwynebu rhyfel anghyfiawn *cyn i'r ymosodiad ddigwydd(!)* – llwyddiant anhygoel, heb ei ail yn hanes gwledydd Prydain (tra protestiodd milynau eraill mewn rhyw 800 o ddinasoedd ym mhedwar ban y byd). Gweld ein llywodraeth yn anwybyddu'r brotest dorfol honno a mynd yn ei blaen beth bynnag – cic greulon yn wynebau pawb a oedd yno a nifer dirifedi o rai eraill a fyddai wedi hoffi bod yno.

Mae bod wedi gallu cynnal cymaint o grwpiau "Atal y Rhyfel" a "Heddwch a Chyfiawnder" ar hyd a lled y wlad, sy'n dal i ymgyrchu'n egnïol yn erbyn y rhyfel, a chynnal yr holl gysylltiadau a wnaed gyda chymunedau Mwslimaidd – llwyddiant arall pwysig a pharhaus. Ac eto does dim argoel fod y DU yn mynd i dynnu allan o Irac nac Afghanistan tra bod mwy o bobl yn marw yno bob dydd.

Felly er y gall ddechrau teimlo fel na bai unrhyw beth y gallwn ei wneud byth yn mynd i newid dim – **dydyn ni ddim mor wan ag efallai ein bod yn teimlo ein bod.** *Nid mater o fod â niferoedd rhy fach yw hi*, dim ond ei bod hi'n bryd defnyddio'n nerth mewn ffordd wahanol.

Os nad yw'r llywodraeth yma'n fodlon gwrando ar brotestiadau torfol ar y strydoedd, mae gennym ddau ddewis syml: naill ai rhoi'r gorau iddi a gadael rhyngddyn nhw a'u cawl, neu canfod beth fydd yn gwneud iddyn nhw wrando, **a dechrau gwneud hynny**.

Gallech ddweud mai dyma'n arfau tarfu torfol ... a dyna'n union ydy Faslane 365. Ei gwneud hi mor anodd i'r awdurdodau fwrw ymlaen â'u busnes fel arfer fel bod yn rhaid iddyn nhw wneud rhywbeth gwahanol … rhoi dim dewis iddyn nhw. Fe allan ni wneud hynny, ar y cyd a grwpiau eraill. Ond mae angen mwy o bobl ar gyfer dyddiau Cymru! Ac mae'ch angen chi nawr! Yn ne Cymru, er enghraifft, mae 25 – 30 o bobl wedi ymrwymo hyd yn hyn, ac mae arnom angen 100 a mwy. Ydych chi wedi cofrestru eto? A ydych chi wedi gofyn i'ch cangen undeb neu'ch grwp i gyfrannu? Faint o bobl ifanc allech chi ddod gyda chi? Nid menter sy'n perthyn i un grwp yn unig yw Faslane 365. Mae hwn yn syniad mawr sy'n disgwyl cael ei lenwi. Gallwn wneud a fynnwn ohono. Ond, da chi, peidiwch â'i gadael hi lawer yn hwy. Mae llawer o gynllunio, hyfforddi a pharatoi i'w wneud er mwyn i ni fod yn effeithiol.

Am flynyddoedd, rydym wedi sgrifennu ar ein ASau, mynd â'n dadleuon i'r strydoedd a'r canolfannau siopa, a rhou cynnig ar y llysoedd. Doedd dim o hynny'n wastraff ond ar adeg yma, os ydym o ddifrif ynglyn â herio cyfreithlondeb arfau niwclear y DU, mae'n bryd gwneud hynny wrth glwydi Canolfan y Llynges yn Faslane.

Does dim rhaid i neb fynd ymhellach na'r hyn maen nhw'n gysurus ag e. Does dim rhaid i chi gael eich restio, er enghraifft, ond peidiwch â gadael i hynny'ch atal rhag dod reit at y glwyd gyda'r rhai sy'n fodlon gwneud. Mae arnom angen eich cefnogaeth, ac mae digon y medrwch ei wneud.

Dywedodd Theodore Roosevelt:
"Mae'n amhosib ennill gwobrau mawr bywyd heb fentro."
Mae un peth yn sicr: os gweithredwn, mae gennym fwy o obaith ennill … os gwnawn ni ddim byd, rydyn ni wedi colli eisoes.

**Marie Walsh**

**Y bwriad yw y bydd Faslane 365 yn warchae heddychlon blwyddyn o hyd ar Ganolfan y Llynges yn Faslane, yr Alban. Rydym yn galw am ddau beth: tynnu Trident allan o wasanaeth, a'r llywodraeth i lunio amserlen ar gyfer datgymalu arfau niwclear.**
**Er mwyn gwneud i hynny ddigwydd, mae grwpiau a mudiadau o'r Alban, Cymru a Lloegr yn cael eu gwahodd i ddod i gau'r ganolfan am o leiaf un cyfnod 48-awr yn ystod y flwyddyn.**
**Rhaid i bawb ymwymo i ufuddhau i'r rheol sylfaenol o ddim trais a pharch at bawb.**
**<u>Dyddiau Y Ddraig Goch</u> yw:**
**De Cymru, 13eg & 14eg Tachwedd**
**Gogledd Cymru, 14eg & 15fed Tachwedd. Am fwy o fanylion, cysyllter â (Gogledd) Phil: 01248 490 715 phil_steele@btinternet.com**
**(Canolbarth) Del: coney@gn.apc.org**
**(De) Marie: 01495 220 400 marie@riseup.net**

cynrychiolaeth ac enw da

# Cyngor yn troedio'n ofalus

**Amddiffynodd Ray Davies, cynghorydd Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Is-gadeirydd CND Cymru, ei hun yn rymus yn erbyn cyhuddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor ei fod wedi dwyn anfri ar y cyngor drwy fynd i'r carchar am wrthod talu dirwyon ar ôl gweithredu uniongyrchol dros heddwch. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai'r unig gywilydd a deimlai oedd nad oedd wedi gwneud digon i atal yr ymosodiad anghyfreithlon ar Irac yn 2003.**

Effaith polisi'r llywodraeth Brydeinig yw fod gwladwriaeth ddemocrataidd Libanus yn cael ei dinistrio, roedd Irac yng ngafael rhyfel cartref, roedd dinas Gasa yn llosgi, ac Afghanistan yn suddo mewn cors o drais.
Eglurodd Ray ei fod wedi penderfynu gweithredu ar ôl bod yn Irac gyda mudiad dyngarol gydag offer meddygol ac addysgol. Effeithiwyd yn ddwfn arno gan yr hyn a welodd – systemau dwr a charthffosiaeth ffaeledig, plant yn sâl ac yn marw, a chartrefi plant amddifad yn llawn plant colledig. Cyfarfu ag arolygwyr y CU a ddywedodd wrtho yr hyn roedden nhw'n ei ddweud wrth Bush a Blair – nad oedd yna arfau dinistr torfol yn Irac.
Dychwelodd i ganfod y llywodraeth Brydeinig yn cynllwynio gyda'r UD i baratoi ar gyfer rhyfel anghyfreithlon. Dywedodd Geoff Hoon yn y Senedd ei fod yn fodlon awdurdodi defnyddio arfau niwclear yn y gwrthdaro – er bod Llys y Byd wedi datgan fod defnyddio, neu fygwth defnyddio, arfau niwclear yn anghyfreithlon ym 1996. Symbylwyd Ray i wneud hynny a fedrai i atal y rhyfel, gan gynnwys mynd i mewn i Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston, rhwyfo i fyny i Afon Tamar i geisio blocedio llong danfor niwclear a oedd yn cael ei pharatoi ar gyfer gwasanaeth yn y Gwlff, a chymryd rhan yn y gwarchae torfol ar ganolfan llongau tanfor niwclear Faslane.
Yna, eglurodd Ray ei fod yn rhan o draddodiad o bobl sy'n dilyn eu cydwybod, yn hytrach na dim ond derbyn y status quo, sy'n cynnwys Merthyron Tolpuddle, gweision fferm a ymunodd â'i gilydd i geisio gwell amodau gwaith, a chael eu caethgludo fel cosb; y Swffragetiaid, a'r Siartwyr. Mae rhan arall o'r traddodiad yma'n cynnwys Mahatma Gandhi, Martin Luther King, ac yn ddiweddarach, Nelson Mandela a dreuliodd 27 mlynedd yn y carchar er mwyn ennill rhyddid i'w bobl. A oedd y rhain oll wedi dwyn anfri ar eu pobl?
I gloi, gofynnodd Ray pwy oedd yn iawn a phwy oedd yn anghywir: y cannoedd a sgrifennodd llythyron yn cefnogi ei safiad, pobl ei ardal a'i hetholodd i'r cyngor gyda mwyafrif mawr, aelodau'r Awdurdod Lleol a oedd wedi dangos eu hyder ynddo drwy ei ethol i'r swyddi pwysig roedd yn eu dal ar y Cyngor – neu'r aelod anetholedig o'r Pwyllgor Safonau a oedd wedi cwyno amdano yn y lle cyntaf?
Ar ôl ystyried y mater, cafodd y pwyllgor Ray yn ddieuog o ddwyn anfri ar y cyngor, ond yn euog o dorri côd ymddygiad yr Awdurdod. Cafodd gerydd a rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
Dywedodd Ray wrth y pwyllgor na fyddai'n rhoi'r gorau i ymgyrchu yn erbyn drygioni arfau niwclear a rhyfel, ac y byddai'n ceisio newid y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n credu'n gryf, mewn democratiaeth, mai dim ond y rheini a'i hetholodd i'r cyngor ddylai fod â'r hawl i'w ddiswyddo.
Dywedodd Ray wrth ei gefnogwyr a'r wasg ei fod wedi trefnu gwylnos yn erbyn bomio Israel yn Libanus a Gasa, a'i fod yn helpu i drefnu gwarchae mis Tachwedd ar Faslane. Rhaid i'r gwaith dros heddwch a chyfiawnder fynd yn ei flaen.



ffoto: ben freeman

*Ray Davies a chyd is-cadeirydd CND Cymru, Olwen Davies*

***"Mae unigolyn sy'n torri cyfraith y dywed ei gydwybod wrtho ei bod yn anghyfiawn, ac yn derbyn y gosb o garchar, mewn gwirionedd yn mynegi'r parch uchaf at y gyfraith"***

**Martin Luther King**

***"Does gan y person sy'n colli ei gydwybod ddim byd ar ôl sy'n werth ei gadw."***

**Izaak Walton**

## GORCHYMYN NUREMBERG

***'Mae gan unigolion ddyletswyddau rhyngwladol uwch na'r dyletswydd cenedlaethol i ufuddhau. Felly mae'n ddyletswydd ar unigolion i dorri cyfraith gwlad er mwyn atal troseddau yn erbyn heddwch a dynoldeb rhag digwydd.'***

**Tribiwnlys Nuremberg 1945-1946**

## Helen a Sylvia nid Blair sy'n disgwyl achos llys

**Ym mis Mehefin, ar ôl cael eu restio o dan y Ddeddf Troseddau Trefniedig Difrifol a'r Heddlu, cafodd Helen John a Sylvia Boyes eu cyhuddo o'r diwedd o dresmasu troseddol. Cawsant eu restio ar yr 2il o Ebrill tra'n croesi'r llinell warchod yn Menwith Hill, "gorsaf gyfathrebu" UDA yn Swydd Efrog.**

Gallai hyn fod yn brawf ar ddeddfwriaeth gwrthfrawychaeth newydd y llywodraeth. Honnir eu bod yn cario torwyr cêbl a morthwyl pan gawsant eu restio a gallent wynebu hyd at 10 mlynedd o garchar os bernir eu bod wedi "mynd â chyfarpar" i gyflawni trosedd yn y ganolfan. Mae'r ddwy fenyw wedi pledio'n ddieuog, a gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron gais llwyddiannus i gael y cyhuddiadau wedi eu gohirio i wrandawiad rheoli achosion ar y 15fed o Awst.

Cafodd y menywod fechnïaeth ar yr amod na fyddant yn mynd o fewn 100 metr i Menwith Hill ac eithrio ar ffordd yr A59 o Harrogate i Skipton sy'n mynd heibio i'r ganolfan, lle "na chânt aros oni ddywedir wrthynt am wneud gan yr heddlu".

Meddai ASE y Blaid Werdd, Jean Lambert: "Dydy Helen a Sylvia yn sicr ddim yn ffawŷchwŷr ac maen nhw wedi gwneud mwy dros achos heddwch na'r Llywodraeth Brydeinig – efallai nad dyma'r bobl a ddylai fod yn cael eu dwyn ger bron llys?"

## Gwariant Milwrol y Byd yn Cynyddu

Amcangyfrifir fod gwariant milwrol y byd yn 2005 wedi cyrraedd $1,118 biliwn. Mae hyn yn gyfystyr â gwariant ar gyfartaledd o $173 y pen ac yn cynrychioli cynnydd real o 3.4 y cant ers 2004. UDA sy'n gyfrifol am ryw 80% o'r cynnydd yma ac mae ei gwariant milwrol yn awr yn 48% o gyfanswm gwariant y byd. Dilynir UDA gan Brydain, Ffrainc, Japan a China gyda 4–5 y cant yr un.

Y wlad nesaf at UDA o ran gwariant milwrol yw Prydain, sy'n gwario $53.6bn (£29bn), neu £490 y pen. Mae hyn er gwaethaf barn llywodraeth Prydain 'Nad oes bygythiad milwrol uniongyrchol i'r Deyrnas Unedig na Gorllewin Ewrop. Nid ydym ychwaith yn rhagweld ailymddangosiad bygythiad o'r fath…' [Ffynhonnell: Arolwg Amddiffyn Strategol 1998, ac ategwyd y polisi ym Mhapur Gwyn Amddiffyn 2003].

Mae'r fath ffigurau'n dangos nad diffyg adnoddau sy'n atal y gwledydd cyfoethog rhag mynd i'r afael â newid hinsawdd a thlodi sydd, yn ogystal â bod yn broblemau mawr eu hunain, yn debyg o gyfrannu fwyaf at anniogelwch a gwrthdaro yn y dyfodol Ffynhonnell: Sefydliad Ymchwil Heddwch Rhyngwladol Stockholm (SIPRI) http://yearbook2006.sipri.org/sipri-yb06-release.pdf

## 'Diarfogwyr' heddwch Fairford – achos yn Llys y Goron Bryste

Yn ôl ym mis Mawrth 2003, aeth Paul Milling a Margaret Jones i mewn i RAF/USAF Fairford ac anablu dau ddwsin o gerbydau milwrol â morthwylion a thorwyr bolltau. Roedd y cerbydau'n cael eu defnyddio i lwytho bomiau a thanwydd ar awyrennau milwrol yr UD. Bwriad y 'diarfogwyr' oedd oedi cyrch gan awyrennau bomio B-52 yr UD oedd yn defnyddio maes awyr milwrol Fairford ar y pryd, ac yn aros i lansio'r cyntaf o'r llu o gyrchoedd bomio ar Irac. Roedd yr awyrennau yma'n cario sawl math o arfau, yn cynnwys bomiau clwster. Byddai eu llwyth erchyll yn rhan o'r cyrchoedd 'Shock and Awe' ar Baghdad y bu'r Pentagon yn ymffrostio gymaint yn eu cylch.

Meddai Margaret Jones:

'Chawn ni byth wybod a lwyddon ni i oedi'r awyrennau i unrhyw raddau. Fy unig obaith i yn bersonol oedd rhoi i rai a oedd yn byw yn y ddinas y cyfle i redeg am eu bywyd cyn i uffern ddisgyn arnyn nhw. "Wedi cyfres o apeliadau cyn-achos, bydd Margaret a Paul yn awr yn mynd ger bron y llys wedi eu cyhuddo o 'Gynllwyn i Achosi Niwed Troseddol'. Y gosb uchaf am y 'drosedd' hon yw deng mlynedd o garchar ar hyn o bryd.

**heddweithredu**

Gelwir ar ffrindiau a chefnogwyr i fod yn bresennol yn yr achos yma, a gynhelir yn Llys y Goron Bryste o'r 4ydd i'r 18fed o Fedi. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur yn awr! Bydd croeso arbennig i chi y tu allan i'r llys ar fore'- Diwrnod Cyntaf ond wrth gwrs, gall unrhyw un fynychu'r llys ar unrhyw bryd i wrando ar yr achos cyfan neu ran ohono.

Fel y dywed Marganet, "Da chi, dewch i'n cefnogi – fel y dywedodd sawl un o'n tystion – nid er fy mwyn i a Paul (er bod hynny'n galondid ac yn nerth i ni) ond er mwyn pobl Irac."

Cysyllter â: Margaret Jones
nabataat@yahoo.co.uk

# Trasiedi Guantánamo

**Ar y 10fed o Fehefin eleni, cyhoeddwyd fod tri charcharor ym Mae Guantánamo, dau o Saudi Arabia ac un Yemeni, wedi cyflawni hunanladdaid. Cyhoeddodd Dirprwy Ysgrifennydd Gwladol Cynorthwyol yr UD dros Ddiplomatiaeth Gyhoeddus ddatganiad hynod anniplomataidd ac annynol yn dweud mai strategaeth eithafiaeth Islamaidd oedd y marwolaethau, a bod y rhain yn amlwg yn bobl nad oedd yn parchu bywydau neb. Dywedodd yr Ôl-Lynghesydd Harry Harris, Llynges yr UD, nad 'gweithred o anobaith' oedd yr hunanladdiadau, ond 'gweithred o ryfel anghymesur'.**

Wrth gwrs, llywodraeth yr UD yw'r un sydd heb ddangos dim parch at fywydau pobl eraill. Mae'r ffigurau swyddogol yn rhestru 25 ymgais hunanladdol a fethodd yn Guantánamo hyd yn hyn, ond mae cyfreithwyr amddiffyn yn amcangyfrif fod y ffigwr yn uwch. Disgrifiodd y cyn-garcharor



Moazzam Begg, wrth ateb cwestiynau yn Fforwm Cymdeithasol Cymru yn Aberystwyth ar y 3ain o Ebrill, fel yr oedd ef ei hun, tra'n dioddef artaith meddyliol a chorfforol, wedi torri i lawr. Nid dyma'r pwynt roedd am ei danlinellu, fodd bynnag, yn y sgwrs a draddodwyd ganddo (yn sgil cyhoeddi ei lyfr, 'Enemy Combatant,' *). Yn wir, ychydig iawn a ddywedodd am ei ddioddefaint ei hun, gan bwysleisio, yn hytrach, yr angen am gyfiawnder i'r carcharorion sy'n dal yno. Gan gyfeirio at y carcharu fel penderfyniad diplomataidd neu wleidyddol, dywedodd Moazzam Begg nad oedd a wnelo â'r gyfraith. Dywedodd y dylid naill ai rhoi noddfa wleidyddol neu statws ffoaduriaid iddynt, neu eu dwyn ger bron llys.

Mae Moazzam Begg yn un o naw Islamydd radicalaidd Prydeinig a gadwyd yn y ddalfa yn Camp X-Ray, Bae Guantánamo gan lywodraeth Unol Daleithau America. Cafodd ei ryddhau ar y 25ain Ionawr 2005 heb ei gyhuddo o ddim, a heb unrhyw iawndal neu ymddiheuriad. Rhyddhaodd yr Arlywydd Bush Moazzam Begg er gwaethaf gwrthwynebiadau'r Pentagon, y CIA, a'r FBI, a fynnai y gallai Mr Begg 'ddal i fod yn frawychwr peryglus'.

Ymgyrchodd tad Moazzam, Azmat Begg, yn ddiarbed dros ryddid i'w fab. Siaradodd yng Ngwyl Heddwch Aberystwyth yn 2004, lle dywedodd mai cyfiawnder a geisid, nid trugaredd.

Ymunwn ag ef i alw ar y llywodraeth Brydeinig i sicrhau rhyddid i'r trigolion Prydeinig sy'n dal i fod yn gaeth yn Guantánamo. Galwn am gau'r gwersyll yma a phob canolfan garcharu anghyfreithlon arall a redir gan UDA neu ei chynghreiriaid, cyn y ceir rhagor o farwolaethau trasig.

**Linda Rogers/Heddwch a Chynnydd**

***Enemy Combatant: A British Muslim's Journey to Guantanamo and Back**
**Moazzam Begg a Victoria Brittain**
**£18.99 Free Press ISBN: 0-7432-8567-0**

## Sbaen yn dweud 'adios' wrth bwer niwclear

**Yn Nadl 'Cyflwr y Genedl' Flynyddol Senedd Sbaen, cadarnhaodd yr Arlywydd Zapatero ymrwymiad i gael gwared ag ynni niwclear. Roedd yr Arlywydd wedi ymgyrchu ar y mater yma yn ystod yr etholiadau diweddar ac mae amserlen ar gyfer cau pob gorsaf ynni niwclear yn cael ei llunio.**

Roedd Fforwm Diwydiant Niwclear Sbaen wedi dadlau fod angen adeiladu 10 gorsaf bwer newydd yn Sbaen ac ymestyn oes yr 8 gorsaf bresennol am rai degawdau, er gwaetha'r problemau. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu dileu.

Dywedodd yr Arlywydd Zapatero fod y mater yn dibynnu ar ewyllys wleidyddol ac, am resymau economaidd yn ogystal â rhai'n ymwneud â'r amgylchedd a diogelwch, rhaid gwneud ynni glân yn sail i anghenion ynni Sbaen yn y dyfodol. Cyhoeddodd hefyd ei fod am i bobl Sbaen a grwpiau amgylcheddol gyfranogi mewn penderfynu ynglyn â gwastraff ymbelydrol yn Sbaen.

**Mwy o wybodaeth: Carlos Bravo, Ymgyrchydd Ynni Niwclear gyda Greenpeace Sbaen, +34 626 99 82 41 a Francisco Castejn, Ecologistas en Accin, +34 639 10 42 33 www.greenpeace.org/international/news/spain-adios-nuclear-31-06-06**

O Gymru i Balesteina

# Ar ochr heddwch a chyfiawnder

**Clywais gyntaf am y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol drwy helpu, ar ôl ysgol, i drawsysgrifio ngeseuon ffacs a anfonwyd 'adref' drwy gyfrwng CND Cymru gan Ray Davies a dreuliodd sawl cyfnod ym Mhalesteina gyda'r Mudiad Cydgadernid Rhyngwladol. Ar y pryd, wyddwn i fawr ddim beth oedd y mater yn ei gynrychioli, dim ond fy mod yn edmygu ei ddewrder a'i ymrwymiad. Wrth i amser fynd heibio, aeth y lle a'r gwrthdaro, i mi, yn ddim ond un o'r 'gormodedd achosion' na all un person byth fynd i'r afael â nhw ar yr un pryd.**

Roeddwn wedi clywed iaith y gwrthdaro – 'meddiannu', 'hunanfomwyr', 'y wal', 'gwersylloedd ffoaduriaid', 'brawychiaeth', 'y gwarchae ar Eglwys y Geni', 'Jenin'…, ond rhaid i mi gyfaddef pe bai rhywun wedi gofyn i mi flwyddyn yn ôl pa 'ochr' oedd yn cael ei meddiannu gan bwy, neu i ddisgrifio unrhyw fanylion neu ddigwyddiadau neilltuol, na fyddwn wedi bod yn siwr. Yn wir, roedd gennyf gyn lleied o wybodaeth, yn deillio yn bennaf o'r ambell sylw, byr fel arfer, yn y cyfryngau Prydeinig i ddigwyddiadau o bwys yno, nes i mi ymateb yn ddigon negyddol yn y lle cyntaf i'r cyfle i gymryd rhan mewn taith ddeg-diwrnod i Balesteina. I mi, roedd y Dwyrain Canol yn lle peryglus. Doeddwn i ddim yn siwr mod i am ymhel â'r lle o gwbl.


Mae arna'i gywilydd o'r ymateb hwnnw nawr. Ar ôl treulio'r deg diwrnod yn teithio tiroedd Palesteina ac Israel, gan aros yn ninas Bethlehem, ymhlith y Palestiniaid hawddgar, mae fy marn, wrth reswm, wedi newid. Mae'r profiad yn un na fyddaf byth yn ei anghofio, hyd yn oed pe bai ond am y gwirionedd trist nad yw'r problemau yno yn debyg o ddiflannu cyn bo hir. Er bod yn rhaid i ni wneud popeth sy'n bosibl i gefnogi heddwch, does dim llawer o obaith y daw yn fuan.

Mae adrodd am y sefyllfa ei hun yn anodd, nid yn unig oherwydd y trasiedïau mawr mae'n rhaid eu cofio, yr amodau trist y mae'n rhaid i bobl yng ngwlad Palesteina eu hwynebu bob dydd a'r atgofion am farwolaeth pobl gyffredin sy'n codi mor aml mewn sgyrsiau bob dydd, ond hefyd oherwydd y propaganda amlwg a gyhoeddir gan yr Israeliaid a'r Palestiniaid yn eu hymdrechion i ennill cefnogaeth y byd i'w 'hochr' nhw. Wrth ddarllen drwy'r toreth o erthyglau, adroddiadau, llawlyfrau gwybodaeth, rhai 'swyddogol' a rhai gan unigolion a grwpiau ar y ddwy 'ochr', gall deimlo fel cael eich wynebu gan ddau blentyn sy wedi bod yn ymladd, ill dau yn ceisio ennill eich cydymdeimlad a phrofi mai'r llall a gychwynnodd y peth. Mae hyn, ynghyd â her croniclo'r hanes heb i'r hanesydd ymddangos fel pe bai'n ystrydebu ynglyn â grwp crefyddol neilltuol, yn golygu mai ychydig iawn o lenyddiaeth wirioneddol wrthrychol sydd am y pwnc. Gall hyd yn oed adroddiadau honedig 'ddiduedd' fod yn gamarweiniol - er enghraifft, y BBC, sydd i fod yn ymroddedig i roi fersiwn deg a diduedd o'r newyddion – yn adrodd fod y Wal Wahanu yn gorwedd ar y ffin rhwng Palesteina ac Israel: mewn gwirionedd, mae'n bwyta i dir Palesteina yn araf ond yn anorfod, gan adael Palestiniaid cyffredin heb fynediad i'w tir sydd bellach ar ochr Israel i'r wal.

Yn bersonol, pe bai'n rhaid i mi ddewis ochr, heb law am fod ar ochr heddwch a chyfiawnder i bawb', byddai'n rhaid i mi 'ochri' gyda phobl Palesteina, wedi gweld y cyferbyniad noeth rhwng trefi Palesteinaidd yn fagiau sbwriel i gyd gan nad oes unlle i fynd â'r sbwriel, yn frith o rwbel heb ei glirio o adeiladau a ddinistriwyd a chartefi a adeiladwyd o angen ond sydd yn anghyfreithlon, am ei bod hi'n amhosibl cael caniatâd i adeiladu, a threfedigaethau glaswelltog Israel (lle mae'r planhigion yn cael mwy o ddwr na phobl Palesteina), gyda choed olewydd a dyrchwyd o dir Palesteina'n addurno'r cylchfannau.

Ar ôl bod yn dyst i glwydi 'diogelwch' yn y wal, a adeiladwyd i gadw golwg ar bwy sy'n dod drwodd rhag ofn eu bod yn beryglus, ond y gellir ei gadael ar agor heb eu gwarchod; ac ar ôl cwrdd â phobl glodwiw Palesteina, o'm tywysydd ar y daith a drefnodd gyfarfodydd a thripiau i ni weld a chwrdd â phobl na allai ef, fel cyn-garcharor gwleidyddol, byth eu gweld a chwrdd â nhw, plant bywiog Wadi Fuquim, y câi eu pentref ei hollti cyn hir gan ddyfodiad y wal (sydd eisoes yn taflu ei chysgod drostynt o fryn cyfagos), i fyfyrwyr Prifysgol Bierzeit sy'n dal i fynychu darlithiau er bod eu taith bellach yn cymryd awr a hanner yn lle 15 munud oherwydd siecbwynt Israeli ar y ffordd; athrawon Hebron a wrthododd fynd drwy siecbwynt i gyrraedd adre oherwydd bod ei cydweithwyr beichiog yn cael eu gorfodi i fynd drwy belydrau-X … gallai rhestr y bobl yma a'u gweithredoedd syfrdanol o ddewrder 'bob dydd' fynd ymlaen am dudalennau.

Aeth ein trip â ni ar daith o gwmpas dinas Bethlehem, i weld y Wal sydd wedi ei haddurno â graffiti; swyddfa heddlu a ddinistriwyd gan awyren fomio F16 (dywedwyd wrthym ei bod yn anghyfreithlon defnyddio'r rhain mewn ardaloedd lle mae pobl yn byw); tyllau bwledi ar waliau Eglwys y Geni, sydd yno ers gwarchae 2002; y ffyrdd y gall Palestiniaid eu gweld ond heb allu eu cyrraedd na'u defnyddio oherwydd y ffens o'u cwmpas â'i gerrynt trydanol marwol; a'r atalfeydd ar y ffyrdd sy'n cyfyngu ar symud i mewn ac allan o'r ddinas. Cawsom deithio o gwmpas gwahanol rannau o Jerwsalem hefyd: gwelsom Fwslimiaid yn cael eu hatal a'u chwilio, a'u gwylio beunydd, ar eu ffordd i'w haddoldy – Cromen y Graig – ar eu dydd sanctaidd; pobl yn cael eu curo ar y stryd gan ddynion yn gwisgo balaclavas yn dweud 'heddlu', a mynd i heibio i Israeliaid a oedd yn bodio ar fin y ffordd, gan gario gynnau peiriant yn gwbl agored. Cerddasom ar hyd strydoedd Hebron, o dan rwydi a osodwyd i atal brics a sbwriel sy'n cael ei daflu o'r tai Israelaidd yn uwch i fyny rhag taro pobl yn y stryd islaw. Gwrthodwyd mynediad i ni i Nablus, a chawsom wybod yn ddiweddarach mai'r rheswm oedd fod nifer o bobl o wersyll ffoaduriaid Balte wedi cael eu lladd y bore hwnnw, yn cynnwys dau blentyn (pam ddychwelsom adre, cawsom na fu dim sôn am hyn yn y wasg Brydeinig).



ffoto: emily freeman

'Strwythur amddiffynnol yw'r wal' meddai'r Israeliaid, ond nad yw'r siâp igam-ogam yma yn cryf iawn ar gyfer diffyniad. Mae'n ffordd dda o gymrud mwy o dîr, serch hynnu.

Beth a'm tarodd i fwyaf oedd dewrder y bobl gyffredin sy'n byw yno, sy'n parhau i fyw eu bywydau beunyddiol er gwaethaf y caledi: mae'r Wal a'r trefedigaethau fel pe baent ar y gorwel ble bynnag yr ewch, yn atgof parhaus o wlad wedi ei meddiannu. Roedd y rhan fwyaf o bobl y siaradon ni â nhw – yn Israeliaid Iddewig ac yn Balestiniaid – yn dweud fod yn rhaid bod â gobaith am y dyfodol neu ni allent barhau i fyw. Roedden nhw'n dweud mai'r cynllun dwy-wladwriaeth yw'r ateb tebycaf ond y bydden nhw'n dymuno gweld un wladwriaeth – gwlad lle byddai pobl Palesteina ac Israel yn byw yn heddychlon, ochr yn ochr. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o esboniadau sydd, a'r rheini'n rhai gwan, o pam nad yw hyn yn bosibl.

**Emily Freeman**

**Cwblhaodd Emily Freeman ei Lefelau A yn Ysgol Gyfun Pantycelyn, Llanymddyfri yn haf 2005. Yn ystod ei 'blwyddyn fwlch', gwnaeth grempog a'u gwerthu o garafan stryd; cynrychiolydd Gymru mewn Cynhadledd Heddwch Ieuenctid ym Milan; gweithiodd yn swyddfa Aelod o'r Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel; helpodd i drefnu Fforwm Cymdeithasol Cymru, ac mae ar hyn o bryd yn mynychu Gwersyll Diarfogi 'For Mother Earth' yng Ngwlad Belg. Ym mis Medi, bydd yn cychwyn ar gwrs gradd ym Mhrifysgol Caeredin.**

adolygiad

## Diwylliannau Symudliw

**To Babel and Back gan Robert Minhinnick.**

Seren 2005 £7.99 ISBN1-85411-401-8

Thema gyson cyfrol newydd Robert Minhinnick o ysgrifau, enillydd haeddiannol Gwobr Llyfr Saesneg y Flwyddyn, yw hanes argraffiadol ei ymgais i gysylltu cloddio am wraniwm yn Arizona a'i ddefnydd terfynol fel wraniwm hesb yn Irac yn ystod Rhyfel Cyntaf y Gwlff. Mae'r ysgrifau'n ein hatgoffa, pe bai angen, o'r modd y mae'r byd yn cael ei redeg ar ein rhan: mae dioddefwyr yn cael eu creu bob cam o'r ffordd ar hyd cadwyn faith o ofid ac angau, o ysbytai cancr yn America i loches danddaearol yn Baghdad a gafodd ei droi'r lladd-dy 400 o bobl (menywod a phlant yn bennaf ) gan daflegryn Cruise. Mae'r disgrifiad o'r olaf yn ddarn arbennig o wych.

Ochr yn ochr â'r craidd yma, mae Minhinnick yn cyflwyno argraff symudliw o amserau a diwylliannau y mae wedi eu profi fel bardd teithiol. Mae'n dathlu amrywiaeth ac arbenigrwydd lleol y ddynolryw yn ogystal â'n hawydd ni oll am hapusrwydd, pleser a iawnder.

Dydy'r llyfr ddim bob amser yn hawdd ei ddarllen ac ar adegau, gallwch deimlo'r awdur yn sawru sain y geiriau i greu rhyddiaith drwchus y gallai'r darllenydd mwy diamynedd deimlo ei fod yn arafu bwrlwm y stori. Fodd bynnag, fel disodli bwyd cyflym â bwyd araf, mae'r llyfr yma'n gwobrwyo'r ymdrech o ddarllen yn araf. Mae'n caniatáu i ni, fel Minhinnick, i fyfyrio ar fachlud gwych, neu margharita a gymysgwyd yn gelfydd, neu bleserau bwyta yn Fflorens - "a feeding Firenze", chwedl yr awdur.Mae Babel yn adnewyddu ein ffydd ynom ein hunain, a'r teimlad y dylem "ddatgan" heddwch yn amlach, a dod o hyd i air arall am y weithred o gyhoeddi gofid rhyfel.

Nodyn i gloi. Ar y rhestr fer gyda 'To Babel and Back' roedd nofel gyffro gain a gwaraidd, **Ice Trap**, gan Kitty Sewell sy'n cysylltu Cardiff a pharthau Arctig Canada. Enillodd hon Wobr Darllenwyr y BBC, ac fe'i hargymhellir hefyd.

**Martin Fitton**

pŵer niwclear

# Gwersi Chernobyl

Jill Evans ASE

**Mae gen i gof byw iawn o glywed y newyddion am ffrwydrad mewn adweithydd niwclear yn yr Undeb Sofietaidd ugain mlynedd yn ôl, a gwylio ag arswyd y golygfeydd enbyd hynny ar y teledu o weithwyr argyfwng yn hedfan dros yr adweithydd llosg gan ollwng tywod a choncrid mewn ymgais i ddiffodd y tân. Does dim byd yn serio'r profiad yn y meddwl, fodd bynnag, fel ymweld â Chernobyl, ar ffin ogleddol Ukrain, fel y gwnes i ym mis Ebrill eleni, a gweld â'm llygaid fy hun y niwed parhaol a achoswyd i bobl ac i'r amgylchedd.**

### Etifeddiaeth

Eleni, sef ugain mlwyddiant trychineb niwclear sifil gwaetha'r byd, mae 350 o ffermydd yng Nghymru yn dal i fod o dan gyfyngiadau oherwydd y llygredd ymbelydrol a gariwyd o Chernobyl. Mae cynnydd yn y gyfradd gancr ym mhoblogaeth yr ardaloedd yr effeithiwyd waethaf arnyn nhw yng ngogledd Ukrain a de Belarus.

### Ardal Waharddedig

Am ganrifoedd eto, bydd "ardal waharddedig" 35 milltir o ddiamedr lygredig dros ben o gwmpas safle niwclear Chernobyl. Fel rhan o'n hymweliad o'r Senedd Ewropeaidd, a gyda chaniatâd o flaen llaw, cawsom fentro i'r ardal yma, ond dim ond ar ôl mynd drwy ddau siecbwynt.

Mae'r arwynebedd 962 milltir sgwâr yma yn amgau tir a ystyrir yn anniogel i neb fyw arno am gannoedd o flynyddoedd ac mae'n cynnwys coedwigoedd, pentrefi a threfi mawr yn ogystal â safle'r adweithydd ei hun. Welson ni nemor berson na cherbyd wrth yrru o gwmpas yr ardal. Yn y goedwig gwelais weddillion tai gyda choed yn tyfu drwy'r to a dodrefn gardd wedi ei adael allan ar ôl i bobl ffoi'n sydyn a'u gadael, ugain mlynedd yn ôl.

### Dinas wag

Profiad iasol yw cerdded o gwmpas tref farw heb ddim ceir na phobl. Dyna sut le yw Pripyat. Roedd yn dref fodern a adeilwyd i gartrefu gweithwyr gorsaf Chernobyl a'u teuluoedd, ac roedd yn un o'r llefydd cyntaf a adawyd gan bobl pan ddaeth maint y ddamwain yn hysbys i'r cyhoedd. Yr unig bobl sydd yno yn awr yw'r gwyddonwyr a swyddogion y llywodraeth sy'n monitro'r llygredd ac yn teithio yno o'r tu allan.

### Dychweledigion

Er ei bod hi'n anghyfreithlon byw yn yr ardal yma, mae rhai pobl wedi dychwelyd, gan ddewis peryglu eu hiechyd yn hytrach na mynd yn ffoaduriaid. Fe gwrddais ag un o'r rhain, ffermwr yn ei saithdegau. Cafodd ei anfon o'i bentref sawl diwrnod ar ôl y drychineb ac aethpwyd ag ef i'r brifddinas, Kiev. Pan roddwyd ty iddo wedi hynny mewn ardal wledig, dywedodd fod y tir mor wael nes iddo ef a'i deulu ddychwelyd i'w cartref gwreiddiol. Mae rhyw 500 o'r 130,000 o bobl a symudwyd i Ukrain wedi dychwelyd.

Wrth sefyll o flaen Uned 4 yr orsaf, doedd gen i ddim geiriau. Roedd y cyfrifydd geiger roedd ein tywysydd swyddogol yn ei gario drwy'r amser yn dangos lefel o ymbelydredd sawl can gwaith yn uwch na'r lefel arferol. Cawsai gweddillion yr adweithydd niwclear ei orchuddio'n frysiog â chragen goncrid; mae honno'n gollwng yn awr hefyd. Dim ond am 20 munud y caniatawyd i ni aros yno. Gollyngwyd yr un faint o ymbelydredd gan ffrwydrad 1986 â'r hyn y byddai 200 o fomiau Hiroshima a Nagasaki wedi ei ollwng.

### Diffeithwch niwclear

Mewn cae ger yr orsaf ei hun mae gweddillion rhydlyd hofrenyddion, injans tân a pheiriannau eraill a ddefnyddiwyd yn y dyddiau wedi'r drychineb, oll wedi eu llygru ag ymbelydredd. Dim ond am ychydig funudau y buom ni yno, a chawsom rybudd i beidio â mynd yn rhy agos oherwydd y llygredd ymbelydrol. Yn union wedi'r ddamwain, aeth 237 o'r gweithwyr argyfwng yn ddifrifol wael â salwch ymbelydredd, ac bu 47 farw. Mae'r atgof iasoer o aberth ddynol y gwasanaethau argyfwng a chost ddynol y drychineb yma.

Mae llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd ynglyn â thrychineb Chernobyl a'r canlyniadau, ond mae'n cynnig un wers y gallwn oll ei dysgu. Dydy pwer niwclear ddim yn ddiogel ac mae'r 'arbrawf niwclear' wedi methu. Wedi fy ymweliad, rwy'n fwy penderfynol nag erioed i barhau i ymgyrchu dros Gymru Ddi-niwclear.

**Ymwelodd Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru ac ASE Plaid Cymru â Chernobyl gyda dirpwyaeth o Aelodau Seneddol Ewropeaidd**



Jill ym Mhripyat

wylfa

# Amddiffyn Ynys Môn!

## deinosoriaid niwclear yn bygwth yr ynys

**Mae'r ddadl niwclear yn un boeth ar Ynys Môn. Yr hyn sydd yn y fantol yw dyfodol safle niwclear Wylfa, wedi i'r dyddiad cau hir-ddisgwyliedig 2010 fynd heibio. Mae'r byncar concrid anferth yma ar arfordir mwyaf gogleddol Cymru eisoes yn dal dau adweithydd Magnox 490MW. Mae'r Cyngor Sir, AS Llafur yr ynys, a phlaid Lafur yr etholaeth oll yn ein hannog i 'FYND YN NIWCLEAR!'**

**Mae Wylfa nôl ar yr agenda, ac ers Mai 2006 gwyddom mai'r etifeddiaeth yr hoffai Tony Blair ein gadael i ni yw 'Ymbelydredd, Ymbelydredd, Ymbelydredd'.**

### Pennau yn y tywod

Mae'r garfan niwclear yn honni fod gorsaf niwclear Wylfa yng esiampl glodwiw o ddiogelwch a rheolaeth dda. Yn hynod gyfleus, maen nhw'n anghofio cyfres o ddamweiniau sylweddol; cosbwyd un ohonyn nhw â dirwy o hanner miliwn o bunnau ym 1994. Maen nhw'n hawlio fod ynni niwclear yn ddibynadwy, gan anwybyddu mor aml ac am gyhyd y bu'n rhaid cau Wylfa i lawr. Maen nhw'n dweud mai'r model iawn i ni yng Nghymru yw'r adweithydd sy'n cael ei adeiladu yn Olkiluoto yn y Ffindir, er gwaetha'r ffaith i'r project gael ei ruthro drwy'r broses gynllunio yn anweddus o gyflym; na chafodd y dyluniad ei berffeithio cyn dechrau adeiladu; a'i fod eisoes yn hwyr, gydag amheuon difrifol erbyn hyn ynglyn â'r defnyddiau adeiladu.

### Unrhyw swyddi neu swyddi diogel?

I AS Ynys Môn, Albert Owen, a Gareth Winston Roberts, arweinydd y cyngor, mae a wnelo hyn oll â swyddi a nemor ddim byd arall. Prin fyddai neb yn meddwl eu bod nhw a'u rhagflaenwyr eisoes wedi cael 43 blynedd i ystyried creu swyddi eraill. Maen nhw'n dweud y bydd cau Wylfa'n dinistrio economi'r ynys gan y bydd swyddi'n cael eu colli yn Wylfa ei hun (er y bydd dadgomisiynu ei hun yn cyflogi llawer) a hefyd yng ngwaith Anglesey Alumnium ym Mhenrhos, Caergybi, sy'n cyflogi 540 o weithwyr. Difrifol iawn. Mae Anglesey Aluminum yn hawlio ei fod yn dibynnu ar bwer niwclear yn Wylfa i gynnal cynhyrchu oherwydd, o dan gytundeb cyfrinachol, mae'n derbyn trydan rhad, wedi ei noddi, i gynnal ei waith smeltio. Mae ei anghenion ynni yn anhygoel: ar hyn o bryd, mae'n defnyddio rhyw 12% o'r holl drydan a ddefnyddir yng Nghymru. Felly beth wnaeth y gwaith yn y cyfnod y bu'r adweithydd ar gau am 18 mis yn ddiweddar? Wel, cael ei drydan o'r grid cenedlaethol. Perchenogion Anglesey Aluminium yw dwy gorfforaeth gyfoethog dros ben: Kaiser Aluminium and Chemicals (49%) a Rio Tinto Zinc (51%), sydd hefyd yn cloddi wraniwm. Ydy hi'n wir nad oes ffordd arall ymlaen, neu a ydy'n cwbl ynglyn ag elw, ac i ddiawl â'r canlyniadau?

Gadewch i wneud hyn y gwbl glir. Mae PAWB am weld swyddi'n cael eu creu a datblygiad diwydiannol yn yr ardal ddifrifol o ddifreintiedig yma, ond rydan ni am weld swyddi sy'n rhai diogel i'r gweithwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd.




**Llwyddodd aelodau o Greenpeace i daflunio 'KAPOW!' anferth ar ochr gorsaf niwclear Wylfa ym mis Chwefror 2006, i ddangos mor agored ydyw i ymosodiad gan frawychwyr**

Rydan ni am weld Cymru'n arwain y ffordd mewn ymchwil, datblygu a chynhyrchu ym maes ynni adnewyddadwy, meicro-gynhyrchu a thechnoleg cadwraeth. A fu yna erioed ynys fwy addas i'r diben hwn, gyda'i hyrddiadau llanw a cherrynt arfordirol, ei gwynt, ei thonnau a'i heulwen?

### Ymunwch â'r ymgyrch!

Cynhaliwyd ymgyrch gyntaf PAWB yn y 1980au a'r 90au. Lansiwyd ei ail ymgyrch yn Aberystwyth ym mis Chwefror 2005. Ymddengys fod y garfan niwclear wedi colli'r rownd gyntaf, a hwythau wedi bod yn galw am estyniad o ddwy flynedd i oes yr orsaf, er gwaetha'r ffaith fod Peter Hain wedi amcangyfrif y byddai cost profion diogelwch i'r perwyl hwnnw yn gallu bod yn gymaint â £100 miliwn, ac er gwaetha'r ffaith na fyddai tanwydd a phrosesu ar gael bellach ar safleoedd yn Lloegr (a bod cau yn orfodol o dan gytundeb rhyngwladol OSPAR). Llwyth o ymagweddu a sbin gwleidyddol, felly. Bydd y cam nesaf yn anodd, oherwydd mae'r garfan niwclear yn benderfynol o gael ei ffordd, ac mae sôn am 'rag-drwyddedu' gorsafoedd er mwyn osgoi ymchwiliadau cynllunio manwl a democratiaeth leol.

Bydd ar PAWB, CWNC, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear Cymru, cefnogwyr unigol a phleidiau gwleidyddol angen yr holl gefnogaeth y gallant ei denu er mwyn ennill. Bydd arnyn nhw angen help pawb yng Nghymru a thros y ffin. Efallai bod y baromedr gwleidyddol yn dangos 'ansicr' ar hyn o bryd, ond yn Ynys Môn bydd yn dangos 'stormus' am beth amser i ddod.

Phil Steele

ymgyrch y dreth heddwch

# Marie'n cerdded i'r Llys

**Ym mis Mehefin, cerddodd Marie Walsh y 19 milltir o Oakdale, ger Caerffili i'r Fenni. Roedd i fod i ymddangos ger bron llys am ddal yn ôl y gyfran honno o'i threthi sy'n cael ei ddefnyddio i ddibenion milwrol. Bu Wendy Lewis, un o saith o ymgyrchwyr â ymunodd â hi ar y daith, yn siarad gyda Marie, a dyma'r diweddaraf am Ymgyrch y Dreth Heddwch i ddarllenwyr *heddwch*.**

*Wendy: **Pryd ddechreuodd chi ymgyrchu dros dreth heddwch, a beth oedd y sbardun?***

*Marie*: Dechreuodd fy mhrotest ym mis Ionawr 2003. Ar y pryd, roeddem yn gweithio'n galed i geisio atal ymosodiad ar Irac ac fe ddarllenais am safiad Saith y Dreth Heddwch a meddwl "Gallwn i wneud hynny".

Sgrifennais at Gyllid y Wlad ac egluro fy ngwrthwynebiad cydwybodol i ryfel, ac nad oeddwn am fod yn gyfrifol am ymosodiad heb esgus ar wlad arall. Esboniais fy mod i'n mynd i gadw tua 10% o'r dreth ddyledus yn ôl (y ganran, yn fras, rydym yn ei dalu am bethau milwrol). Dywedais y byddwn yn cynilo'r arian tan y byddai'r hawl wedi ei sefydlu i'w dalu i mewn i gronfa 'heddwch' amgen.

*Wendy: **Felly beth ddigwyddodd wedyn?***

*Marie:* Dim llawer, am hydoedd. Atebodd swyddfa'r dreth yn ddigon caredig ond gan ddweud nad oedd hi'n bosib i mi ddewis sut y byddai fy nhreth yn cael ei wario. Bob blwyddyn wedyn, byddwn yn amcangyfrif faint oedd arnaf iddyn nhw, talu 90% o hynny, ac ailddatgan fy safbwynt. A bydden nhw'n sgrifennu nôl gan ddweud, 'mae'n ddrwg gen i ond fedrwch chi ddim gwneud hyn'. Ar ryw bwynt, fe ddechreuon nhw ychwanegu llog hefyd. Dim ond swm bach oedd arna'i iddyn nhw (treth heb ei thalu a llog o ryw £135 dros 3 blynedd), efallai mai dyna pam arhoson nhw cyhyd cyn mynd â fi i'r llys.

*Wendy: **Ond fe aethon nhw â chi i'r llys yn y man? Sut deimlad oedd hynny?***

Marie: Rown i'n eitha sigledig i ddechrau. Ond roeddwn i'n gweld hyn fel cyfle i dynnu sylw at yr achos. Fe drefnais i'r 'daith heddwch' yma i'r llys a rhoi gwybod i'r wasg. Roedd y gefnogaeth yn ffantastig ac fe hoffwn i ddiolch i bawb sydd wedi cerdded gyda fi a dosbarthu taflenni, a'm cefnogi yn y llys neu mewn ffyrdd eraill.

Rown i'n teimlo'n rhwystredig pan ddywedwyd wrthyf yn y llys nad oedd gan yr ynadon hawl ystyried fy nadleuon. Fe ddywedon nhw mai mater i lys uwch oedd yr achos hawliau dynol roeddwn i'n ei ddadlau. Rhoddwyd 'Gorchymyn Rhwymedigaeth' i Gyllid y Wlad er gwaetha hynt presennol achos Saith y Dreth Heddwch drwy'r Llys Ewropeaidd.

*Wendy: Ac mae'n rhaid i chi fynd yn ôl i'r llys ar Awst y 1af. Beth sy'n debyg o ddigwydd bryd hynny?*

Marie: Dwi'n credu y bydd y llys yn cyhoeddi Gorchymyn Atafaelu, ac yna fe gaf ymweliad gan feili i fynd ag eiddo o 'nghartre. Yn bersonol, dwi'n credu y byddai'n well gen i fynd i'r carchar, ond un cam ar y tro yw hi ar hyn o bryd.

*Wendy: Os yw pobl yn cytuno gyda chi, sut allan nhw'ch cefnogi?*

Marie: Drwy fy ffonio i rhwng 8 a 9am (01495 2204 00). Am fanylion ynglyn ag Ymgyrch y Dreth Heddwch: Conscience: www.conscienceonline.org.uk 0870 777 3223 neu +44(0)20 7561 1061, Cysylltwch â http://www.peacetaxseven.com/withhold.html neu Peace Tax Seven, Woodlands, Ledge Hill, Market Lavington, Wiltshire SN10 4NW England







# Gweithredu i Gadw Cymru'n Ddi-niwclear

**Ym 1982, ymfalchïai Cymru yn y ffaith mai hi oedd y genedl gyntaf yn y byd i ddatgan ei bod yn ddi-niwclear. Ymunodd pob cyngor sir a llawer o gynghorau dosbarth a bro â'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear (ALIDN). Dilynodd llawer o wledydd eraill ei hesiampl. Hyd yn oed wedi ad-drefnu'r awdurdodau lleol ym 1995, ymunodd pob un o'r 22 o siroedd newydd â Fforwm Di-niwclear Cymru.**



Ymddengys yn awr, o ganlyniad i bwysau gan y llywodraeth a chamwybodaeth sy'n cael ei ledaenu gan y diwydiant niwclear, fod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r esgus o 'arbed arian' i beidio ag adnewyddu eu haelodaeth. Ac eto, dangoswyd fod y tâl aelodaeth yn llai na chostau blynyddol un cynghorydd ar gyfartaledd. Y cynghorau sydd wedi parhau'n aelodau yw Caerffili, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ceredigion, Sir Benfro, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Casnewydd a Merthyr. Yn awr, mae angen i weithredwyr heddwch, gwleidyddol ac amgylcheddol i uno i lobïo cynghorwyr yn yr awdurdodau gwrthgiliol a mynnu eu dwyn yn ôl i mewn i Fforwm Di-niwclear Cymru.

### Materion niwclear yng Nghymru

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am ddiogelwch y cyhoedd ac amddiffyn yr amgylchedd. Dyma'r materion niwclear penodol sy'n effeithio ar allu cyngor i gyflawni'r dyletswyddau yma:

- Gweithreduu a dadgomisynu gorsafoedd ynni niwclear yng Nghymru ac yn agos i'r ffin.
- Gwrthwynebiad i adeiladu gorsafoedd ynni niwclear yng Nghymru neu'n agos iddi, yn groes i farn y cyhoedd.
- Awyrennau sy'n cario arfau niwclear yr UD yn hedfan dros dde Cymru ar eu ffordd i un o'u saith canolfan yn Lloegr.
- Cludo a storio tunelli o wastraff niwclear o'r llu o orsafoedd pwer niwclear sydd ar fin cael eu dadgomisiynu
- Diogelwch llongau tanfor niwclear ag arfau niwclear sy'n gweithredu yn y moroedd ger arfordir Cymru

Gallai digwyddiad neu ddamwain niwclear ollwng radio-nwclidau y gwyddom, o brofiad Chernobyl, nad ydynt yn parchu ffiniau. Mae llawer o ffermwyr rhan helaeth o ogledd Cymru yn gwybod hynny, ac yn dal i ddioddef.

Mae'r holl faterion hyn o bwys hanfodol i iechyd a diogelwch pobl Cymru yn y dyfodol, a'u plant a'u hwyrion. Y deunydd cefndir a gynhyrchir gan yr ALIDN yw'r ffynhonnell orau a mwyaf dibynadwy o wybodaeth am beryglon niwclear ar gyfer awdurdodau lleol.

**heddweithredu: Y ffordd orau y gallwn ein diogelu ein hunain a'n teuluoedd yw drwy sicrhau fod ein holl awdurdodau lleol yn aelodau o Fforwm Di-niwclear Cymru, eu bod yn penodi cynrychiolwyr a fydd yn mynychu'n rheolaidd ac yn hysbysu eu Cynghorau a'r cyhoedd yn gyson. Cysylltwch â nhw: Keith Davies, Fforwm Di-niwclear Cymru, Cynllunio Brys, Rhondda Cynon Taf, The Pavilions, Parc Cambrian, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX.**

**Os nad yw eich cyngor wedi ei restru fel aelod o Fforwm Di-niwclear Cymru, da chi, cysylltwch â'r Cynghorydd Sir a Chadeirydd y Cyngor Sir a'u hannog i ymuno – gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod.**

**Os yw'ch cyngor wedi ei restru fel aelod o Fforwm Di-niwclear Cymru, sgrifennwch atyn nhw ac annog eich cynghorydd i sicrhau fod y cyngor yn parhau i fod yn aelod.**

# dyddiadau dyddiadur

**Gorffennaf 29ain - Awst 12fed** Coulport, Yr Alban **Gwersyll Diarfogi Rhyngwladol**
Cysyllter â: Trident Ploughshares, 42-46 Bethel St, Norwich NR2 1NR 0845 45 88 366
**info@tridentploughshares.org**
www.tridentploughshares.org

**Awst 4ydd – 12fed** Abertawe **Yr Eisteddfod Genedlaethol** pabell **CND Cymru.** Dewch i helpu – neu i ymweld â ni! Cysyllter â: Jan a Brian Jones (01792) 830 330

**Awst 16eg – 20fed** Gorllewin Cymru Cynulliad **Earth First!** Cysyllter ag: EF!, 38, Wells Road, Colchester CO1 2YW 0845 223 5254
efgathering@aktivix.org

**Medi 14eg – 19eg Taith Gerdded Faith yr Alban dros Heddwch** o Faslane i Senedd yr Alban. Disgwylir i'r llywodraeth benderfynu pr'un ai i sicrhau arfau niwclear newydd yn lle Trident neu beidio. Pwrpas y daith yw dweud ein bod yn disgwyl i Senedd yr Alban lefaru'n groyw yn erbyn unrhyw arfau niwclear newydd.
www.scotland4peace.org

**Medi 1af - 15fed** Bryste **Rhyfel Irac ger bron Llys** Paul Milling a Margaret Jones yn dychwelyd i Lys y Goron am eu hachos llys. Gweler y stori (tud. 4)

**Medi 23ain** Manceinion Gwrthdystiad **"No Trident Replacement"**
Ar drothwy cynhadledd y Blaid Lafur. Y gwrthdystiad Prydeinig cyntaf i gynnwys neges wrth-niwclear benodol ers blynyddoedd maith! Mwy o wybodaeth: www.cnduk.org

**Medi 30ain Cyfarfod Cyngor CND Cymru** Croeso i bob aelod a chynrychiolwyr grwpiau cysylltiedig: cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol (gweler Cysylltiadau) am fanylion.

**Medi 2il Picnic Coffa Comin Greenham** (gweler stori tud. 7 Saesneg)

**Medi 21ain** Y Deml Heddwch, Caerdydd **Digwyddiad Dydd Heddwch** Digwyddiad awr ginio CND Cymru. Croeso i bawb! Cysyllter â: Ray Davies (gweler Cysylltiadau)

**Medi 29ain** 7.30pm Trefyclo, Powys **Martin Bell: 'Confessions of a War Thug'** trefnwyd gan Weithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Trefyclo. Cysyllter â: 01547 523 833

**Hydref 1af – 8fed** Pobman **Wythnos Brotest Ryngwladol Cadw'r Gofod ar gyfer Heddwch i Atal Milwreiddio'r Gofod**
**www.space4peace.org**
www.yorkshirecnd.org.uk

**Hydref 14eg – 15fed** Prifysgol Bradford **Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig** Cysyllter â 0207 700 2393

**Hydref 28ain – 29ain** Llundain **Dim Falluja Arall. Penwythnos o werthwynebiad di-drais i oresgyniad Irac** ddwy flynedd wedi cyflafan yr UD/DU yn Falluja. Trefnwyd gan Lleisiau yn y Diffeithwch. Cysyllter â: 0845 458 9571 info@j-n-v.org
www.j-n-v.org

# Ymunwch â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear!

**Fu 'na 'rioed amser pwysicach i fod yn rhan o lais rheswm a phwyll yng Nghymru.**

**Ymunwch ag CND Cymru a chefnogwch y mudiad ymgyrchu di-blaid wleidyddol mwyaf ar gyfer pobl gyffredin yn y wlad.**

**Mae CND Cymru yn cwmpasu grwpiau ac unigolion a all gyfrangi ar ba lefel a fynnant – o ddarllen 'heddwch' a thrafod materion gyda ffrindiau a chydweithwyr, sgrifennu llythyron, mynd ar wylnosau tawel a phrotestiadau, hyd at fynd ati i ddiarfogi taflegryn yn ddi-drais!**

**Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu byd cynaliadwy wedi ei reoli gan heddwch a chyfiawnder gwirioneddol. Gadewch i ni wneud arfau dinistr torfol – a'r esgusodion amdanynt – yn rhywbeth o'r gorffennol. Pobl gyffredin yw'r arch-bwer sy'n cael ei anwybyddu a'i ddiystyru yn y byd!**

**Cyfraddau Aelodau:**
£30 pâr cyflogedig; £20 oedolyn; £15 digyflog;£10 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr.
Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru'.

**danfonwch i:**
Monica Bradley, Ysgrifennydd Aelodaeth, CND Cymru, 7 Brook Terrace, Mochdre, Y Drenewydd SY16 4JG Ffôn: (01686) 626 350

**Tachwedd Dyddiau'r Ddraig Goch yn Faslane** **(gweler stori tud. 3)** **Dewch yn eich blaen! Mae'n bryd gweithredu! Gweler www.faslane365.org**
13eg – 14eg Faslane 365 De Cymru
14eg – 15fed Faslane 365 Gogledd Cymru
15fed – 16eg Faslane 365 Canolbarth Cymru

# Cymru'n Meithrin Gobaith




Cynhaliwyd Fforwm Cymdeithasol Cymru dros benwythnos Gwyl Calan Mai ar hyd a lled tref groesawgar a hardd Aberystwyth. Drwy weithdai, sgyrsiau, arddangosfeydd a digwyddiadau eraill, bu mwy na mil o bobl wrthi'n archwilio problemau gwleidyddol ac amgylcheddol a thrafod sut y gellir gwella pethau ar gyfer bywyd ar y blaned.

Mewn rali derfynol ger Castell Aberystwyth ar Ddydd Calan Mai, darllenwyd y datganiad a ganlyn:

***Mae Fforwm Cymdeithasol Cymru yn falch o sefyll gyda mudiadau cymdeithas sifil eraill a rhai cenedlaethol a rhanbarthol i weithio am gyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, a heddwch yn y byd: rydym yn awyddus i feithrin gobaith.***

***Y mae Fforwm Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'n llwyr egwyddorion Fforwm Cymdeithasol y Byd Porto Algere (Brasil). Yr ydym yn unol yn ein penderfyniad i gydweithio er mwyn atal cyfoethogi'r breintiedig, cynnydd mewn tlodi,a dinistr ein planed.***

***Am dri diwrnod yn Aberystwyth, nyni oedd y newid rydym am ei weld yn ein byd a buom yn trafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd a gweithredu'n lleol, i greu cymunedau cynaliadwy a mwy diogel yng Nghymru a'r byd.***

***Gwahoddwn bob unigolyn, grwp a mudiad sydd yn ymboeni am hawliau dynol a'r amgylchedd i ymuno a gweithredu'n greadigol yn y cyfnod tyngedfennol yma i'n planed.***

***Galwn ar ein cynrychiolwyr etholedig i gydnabod, hybu a gweithredu'n egnïol gyda'r cyfoeth o brofiad a chyfleoedd sydd yn ein holl gymunedau; i ddeall yn glir y syched sydd am gyfiawnder a heddwch gwirioneddol, ac i barchu anghenion a dyheadau pobl Cymru.***

**http://www.socialforumcymru.org.uk/**

## Cyfarfod Blynyddol CND Cymru

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol CND Cymruar y 18fed o Dachwedd 2006. Gall aelodau o CND Cymru a chynrychiolwyr osod cynigion ger bron i'w hystyried ac enwebu ar gyfer swyddi etholedig y Cadeirydd a phedwar Is-gadeirydd. Gellir ailenwebu deiliaid presennol y swyddi. Dylid anfon enwebiadau a chynigion at yr Ysgrifennydd Cenedlaethol (erbyn 30ain Medi) (gweler Cysylltiadau).
Mae lleoliad y cyfarfod yn dal i'w gadarnhau. Croeso i bob aelod a chynrychiolydd. Da chi, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol am wybodaeth bellach.

## Canu dros Heddwch

Lansiwyd côr ymgyrchu newydd yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf i ganu caneuon heddwch a chyfiawnder. Mae ganddo 20 o aelodau eisoes ac mae croeso i lawer iawn mwy. Mae'r côr ar gyfer pobl sy'n teimlo'n gryf ynglyn â materion heddwch a chyfiawnder, i ganu mewn harmoni. Y bwriad yw dathlu, a chefnogi'r rhai sy'n ymgyrchu dros ffyrdd di-drais o ddatrys problemau yn y byd.
Dydy'r côr ddim wedi penderfynu ar enw eto – "Côr Heddwch" neu "Côr Gobaith" efallai.
Os ydych yn byw o fewn cyrraedd hwylus i Aberystwyth ac am ganu gyda phobl o'r un anian â chi, croeso i chi ymuno. Dydy profiad blaenorol o ganu mewn côr ddim yn angenrheidiol. Dysgir caneuon drwy wrando. Bydd y côr yn ymarfer yn Nhy Cwrdd y Crynwyr, Maes Maelor, Penparcau, Aberystwyth bob nos Fercher am 6pm ar Awst 9fed, 16eg a'r 23ain, a phob wythnos wedyn o fis Medi ymlaen. **Cysyllter â: Susie Ennals 01970 612 657**
susie@ennals.org.uk


# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01495) 773 180
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru


**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
Brian.Jones@nptc.ac.uk

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace,
Mochdre, Drenewydd SY16 4JG (01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

**masnachu**
Jan Jones
(01792)830 330

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard, Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF
(01495) 773 180
jill@cndcymru.org